

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TY'N DŴR, GARNDOLBENMAEN, GWYNEDD) 2022

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Gwynedd ar 19 Mehefin 2017 o dan y cyfeirnod C17/0431/36/LL a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Ty'n Dwr, Garndolbenmaen, Gwynedd) 2022 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Porthmadog, Byw'n Iach Glaslyn, Porthmadog, Gwynedd LL49 9HX neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1532150, neu gellir eu gweld ar-lein ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-cau) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-cau>.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf; neu
 - b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;
- o fewn 6 wythnos i 3 Awst 2022, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (TY'N DWR, GARNDOLBENMAEN, GWYNEDD) ORDER 2022

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice. The stopping up is authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by Gwynedd Council on 19 June 2017 with reference number C17/0431/36/LL described in Schedule 2 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Ty'n Dwr, Garndolbenmaen, Gwynedd) Order 2022 ("the Order") will cease to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal opening hours at Porthmadog Library, Byw'n Iach Glaslyn, Porthmadog, Gwynedd LL49 9HX or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1532150, or viewed online on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/stopping-orders>.

If a person is aggrieved by the Order, on the ground that:

- a. it is not within the powers of the Act; or
- b. a procedural requirement of the Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 3 August 2022 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1
(Bras amcan yw pob mesuriad)
Y darn o briffordd sydd i'w gau

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd o'r enw Ty'n Dwr, Garndolbenmaen, Gwynedd, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 165 o fetrau sgwâr, a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 2
Y datblygiad

Dymchwel modurdai presennol, adeiladu dwy annedd 2 lawr fforddiadwy, creu lleoedd parcio a chyfleusterau cysylltiedig.

SCHEDULE 1
(All measurements are approximate)
Length of highway to be stopped up

An irregular shaped length of highway known as Ty'n Dwr, Garndolbenmaen, Gwynedd having a total area of 165 square metres, shown by zebra hatching on the deposited plan.

SCHEDULE 2
The development

The demolition of existing garages, erection of two 2 storey affordable dwellings, creation of Parking spaces and associated facilities.